# Llwyni brodorol amgen ar gyfer disodli *Rhododendron ponticum* (a rhywogaethau estron goresgynnol eraill)

## Cwyrwialen (*Cornus sanguinea*)

Mae gan y gwyrwialen frodorol (Cornus sanguinea) goesynnau coch a melyn ac mae'n dod â lliw sy'n braf i'w weld mewn gerddi yn ystod y gaeaf. Mae cwyrwialod yn cynhyrchu sypiau o aeron du bach crwn sy'n troi'n sgleiniog wrth iddynt aeddfedu ym mis Awst a mis Medi, ac mae'r robin goch a'r fronfraith wrth eu bodd yn gwledda arnyn' nhw.


By Robert Flogaus-Faust - Own work, CC BY 4.0,


By David Short from Windsor, UK - Cornus sanguinea 'Anny's Winter Orange', CC BY 2.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=63875004

Mae yna sawl math ar gyfer yr ardd hefyd. Mae gan y *Cornus alba* 'Elegantissima' ddail amrywiol a fydd yn bywiogi ymylon llwyni yn yr haf. Mae *C. racemos* yn un arall i gadw llygad amdano.

Bydd angen i chi dorri coesau'r cwyrwialod yn ôl yn galed bob yn ail flwyddyn yn gynnar yn y gwanwyn er mwyn hybu lliw yn yr hydref.

## Ysgaw'r Gors (*Vibernum opulus*)

Mae ysgaw'r gors yn llwyn brodorol hardd sy'n arddangos blodau gwyn lesiog yn y gwanwyn a sypiau crog o aeron coch llachar yn yr hydref sy'n boblogaidd gyda llinos y bustl a'r fronfraith. Gall yr ysgaw fynd yn eithaf tal a lledaenu, a gellir ei dyfu fel gwrych anffurfiol. Gall oddef cryn dipyn o gysgod.





Mae yna sawl math arall o fibwrnwm amrodorol, bythwyrdd a chollddail, ac mae gan y mwyafrif ohonynt flodau ac aeron ar gyfer pryfetach peillio ac adar. Mae *Viburnum tinus* 'Eve Price' yn fythwyrdd ac mae ganddo ddail gwyrdd tywyll trwchus, ac mae'n blodeuo dros gyfnod hir o ddiwedd y gaeaf i'r gwanwyn.

## Y Bisgwydden (*Euonymus europaeus*)



Dyma goeden gollddail amrodorol hyfryd sy'n aml yn tyfu fel llwyn neu brysglwyn, a gellir ei chadw'n isel trwy ei thocio yn achlysurol. Bydd ei dail yn troi'n goch dwfn gwych yn yr hydref, pan fydd hi hefyd yn arddangos ffrwythau pinc tanbaid anarferol â hadau oren llachar.



Mae'r dail yn cael eu bwyta gan lindys nifer o wyfynod, gan gynnwys ermin brith y rhyfon a'r piswyd, yn ogystal â glöyn byw glas yr eiddew. Mae'r blodau yn ffynhonnell gyfoethog o neithdar a phaill ar gyfer pryfed.

## Y Ddraenen Ddu (*Prunus spinosa*)



Yn gynnar yn y gwanwyn bydd blodau gwyn ar lwyni'r eirin surion neu'r ddraenen ddu adnabyddus hon, mae peillwyr wrth eu bodd hefo nhw, ac mae ei haeron porffor-las yn yr hydref / gaeaf yn darparu bwyd i adar a mamaliaid, a gellir eu defnyddio i wneud 'sloe gin.' Mae ei changhennau drain yn cynnig cynefin nythu diogel i adar. Gellir eu cadw'n isel trwy eu tocio ac mae'n gweithio'n dda fel rhan o wrych cymysg.

## Yr Eurddraenen (*Berberis vulgaris*)



Mae rhywogaethau'r *Berberis* yn wydn a gall oddef pob math o bridd heblaw pridd sych, ac mae'n darparu gorchudd daear gwerthfawr i adar, ac mae'n cynhyrchu aeron. Mae yna amrywiaeth frodorol, *Berberis vulgaris*, a sawl math deniadol ar gyfer yr ardd.

Mae gan y *Berberis darwinii* flodau oren llachar yng nghanol y gwanwyn. Bythwyrdd yw hon sy'n ffafrio haul llawn a phridd llaith, bydd yn tyfu'n araf i oddeutu 3 m. Mae'n edrych orau wedi'i phlannu mewn grŵp ymysg llwyni eraill.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

## Ceiriosen y cwyros (*Cornus mas*)

Aelod o deulu'r cwyrwialod, bydd ceiriosen y cwyros yn tyfu'n dda yn y mwyafrif o briddoedd i uchder hyd at 5 i 8 metr, yn yr haul neu mewn cysgod rhannol. Mae'r adar wrth eu bodd hefo'r ffrwythau coch suddiog yn yr haf.



Mae ceiriosen y cwyros mor wydn â chyll, ac mae eu hedrychiad yn ddigon tebyg i'w gilydd yn yr haf. Bydd ei blodau melyn cain yn agor ar ei choesynnau noeth ddiwedd y gaeaf. Yn ystod hafau cynnes bydd yn cynhyrchu cnwd mawr o ffrwythau.

## Rhosyn (*Rosa* spp)

Mae yna nifer digon dryslyd o rosod gwahanol i'w cael, ond os ydych chi am eu mwynhau am eu bod o fudd i fywyd gwyllt, yn ogystal â mwynhau'r blodau gogoneddus yn yr haf, dewiswch fathau hen-ffasiwn sy'n bersawrus ac yn gallu gwrthsefyll afiechydon. Mae'r rhosod o fath mwy agored yn well i beillwyr, a bydd ystod eang o bryfed yn cael eu denu at y blodau gan gynnwys gwenyn a gloÿnnod byw. Mae adar yn mwynhau'r ffrwythau.



## Rhafnwydden (*Frangula alnus*)

Llwyn neu goeden fach yw hon sydd ag aeron du a choch a blodau gwyn bach anamlwg. Yn aml caiff ei phlannu i ddenu gloÿnnod byw brwmstan hardd - y rhafnwydden a'r freuwydden yw'r unig blanhigion y mae'r brwsmtan yn bwydo arnyn' nhw, sef y pryfyn lliw menyn gwreiddiol , - sy'n adnabyddus am ei allu i deithio milltiroedd i ddod o hyd i'r llwyn i ddodwy ei wyau arno.



Mae gloynod byw megis melyn y rhafnwydd yn hoff o rhafnwydden.

## Criafol / Cerddinen (*Sorbus aucuparia)*



Coeden frodorol hyfryd sy'n arddangos blodau gwyn trwchus yn y gwanwyn ac aeron ysgarlad yn yr hydref. Mae'n goeden fach sy'n gallu cyrraedd 15m o uchder, ond gellir ei chadw'n llai mewn gwrych. Mae rhywogaethau eraill o griafol, fel Sorbus 'Joseph Rock' a'r *Sorbus vilmorinii* yn tueddu i fod yn llawer llai na'r griafolen frodorol ond mae ganddyn nhw aeron a blodau deniadol yn dal i fod.



Y mae'r Cynffon sidan wrth ei fodd gyda hadau criafolen.

## Llosg-ddraenen (*Pyracantha* spp)



Er nad yw hon yn frodorol, nid yw'n ymledol ychwaith ac mae'n cynhyrchu cnydau da o aeron yn yr hydref / gaeaf.

## Coed ffrwyth / perllan Cymraeg

Mae yna hefyd amrywiaeth eang o goed ffrwythau Cymreig traddodiadol a allai ddisodli'ch rhododendron a rhoi cnwd hyfryd o ffrwythau i chi (a'r bywyd gwyllt lleol) fel afalau, gellyg, eirin damasg ac ati. Os yw'r syniad hwn o ddiddordeb i chi, cysylltwch â ni am wybodaeth bellach.





# Alternative shrubs to replace *Rhododendron ponticum* (and other alien invasive species)

## Dogwood (*Cornus sanguinea*)

The native dogwood (*Cornus sanguinea*) has red and yellow stems, and brings welcome colour to a winter garden. Dogwoods produce bunches of small, round black berries that turn glossy as they ripen in August and September, which robins and mistle thrushes enjoy.


By Robert Flogaus-Faust - Own work, CC BY 4.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=84892633


By David Short from Windsor, UK - Cornus sanguinea 'Anny's Winter Orange', CC BY 2.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=63875004

There are also several garden varieties. *Cornus alba* 'Elegantissima' has variegated leaves that will brighten up the shrub border in summer. *C. racemos* is another to look out for. You will need to cut the stems of dogwoods back hard every other year in early spring to promote autumn colour

## Guelder rose (*Vibernum opulus*)

Guelder rose is a beautiful native shrub, with lacy white flowers in spring and hanging bunches of bright red berries in autumn, which are popular with bullfinches and mistle thrushes. Guelder can get quite tall and spreading, and can be grown as an informal hedge. It is tolerant of a fair amount of shade.





There are several other kinds of non-native viburnum, both evergreen and deciduous, and most have flowers and berries for insect pollinators and birds. *Viburnum tinus* 'Eve Price' is an evergreen and has dense dark green foliage, flowering over a long period from late winter to spring.

## Spindle (*Euonymus europaeus*)

Spindle is a gorgeous deciduous native tree which often grows as a bush or shrub, and can be kept low by pruning occasionally. Its leaves turn a fabulous deep red in autumn, when it also has unusual vivid pink fruits with bright orange seeds.





The leaves are eaten by caterpillars of many moths, including the magpie and spindle ermine, as well as the holly blue butterfly. The flowers are a rich source of nectar and pollen for insects.

## Blackthorn (*Prunus spinosa*)

The well-known sloe or blackthorn has white flowers in early spring, loved by pollinators, and purple-blue berries in autumn/winter, which provide food for birds and mammals, and can be used to make sloe gin. Its thorny branches provide safe nesting habitat for birds. It can be kept low with pruning and works well as part of a mixed hedge.



## Barberry (*Berberis vulgaris*)

*Berberis* species are hardy and tolerate all but dry soils, providing valuable ground cover for birds, as well as berries. There is a native variety, *Berberis vulgaris*, and several attractive garden varieties. *Berberis darwinii* has bright orange flowers in mid-spring. An evergreen, it prefers full sun and a moist soil, growing slowly to around 3 m. It looks best planted in a group with other shrubs.



## Cornelian cherry (*Cornus mas*)




A member of the dogwood family, cornelian cherry will grow well in most soils, sun or part-shade, and up to 5 to 8 metres in height. The juicy red fruits are popular with birds in summer.

The cornelian cherry is as hardy as hazel, and similar in appearance in the summer. Its delicate yellow flowers open on bare stems in late winter. In warm summers it produces large crops of fruit.

## Rose (*Rosa* spp)

There is a bewildering number of different roses, but if you want to enjoy them for their wildlife benefit, as well as glorious summer flowers, choose old-fashioned varieties which are fragrant and disease resistant. The more open roses are better for pollinators, and a wide range of insects will be attracted to the flowers including bees and butterflies. The fruits are popular with birds.



## Alder Buckthorn (*Frangula alnus*)



Brimstone butterflies are attracted to alder buckthorn

This is a shrub or small tree which has black and red berries and small inconspicuous white flowers.  It is often planted to attract beautiful brimstone butterflies – alder and purging buckthorn are the sole food plant of the brimstone, the original butter-coloured fly, which is known for its ability to travel miles to find the bush to lay its eggs on.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

## Rowan (*Sorbus aucuparia)*



A lovely native tree with thick white flowers in spring and scarlet berries in autumn. It is a small tree that can reach 15m in height, but it can be kept smaller in a hedge. Other species of rowan, such as *Sorbus* 'Joseph Rock' and *Sorbus vilmorinii* tend to be much smaller than native rowan but still have attractive berries and flowers.



Waxwings love rowan berries.

## Firethorn (*Pyracantha* spp)



This evergreen shrub can reach 4-5 metres tall and will spread around 4 metres. Whilst this is non-native, it is also non-invasive and produces nice crops of berries in autumn/winter. Most varieties are fully hardy and will tolerate partial shade. It can also be grown as a hedge.

## Welsh fruit / orchard trees

There is also a wide variety of traditional Welsh fruit trees that could replace your rhododendron and give you (and the local wildlife) a lovely crop of fruit such as apples, pears, damsons etc. If this idea interests you please contact us for further information.



